

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Rheolwr prosiect tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru oedd Nick Selwyn ac roedd y tîm yn cynnwys Steve Frank, Euros Lake, Matt Brushett, Philippa Dixon, Kay Palmer a Sara Leahy o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Mae cynghorau yn atal y galw am ofal cymdeithasol, ond nid yw gwybodaeth, cyngor a chymorth yn effeithiol yn gyson	4
Ein canfyddiadau	8
Argymhellion	9
1 Mae'r Ddeddf wedi annog newid y pwyslais i fod ar atal, ond mae'r amrywiaeth o ran i ba raddau y mae'r gwasanaethau IAA ar gael, yn weledol, yn rhwydd cael gafael arnynt ac o ansawdd da, yn arwain at niferoedd anghyson yn defnyddio'r gwasanaethau	11
2 Mae awdurdodau lleol yn cefnogi pobl i gael gafael ar amrywiaeth ehangach o ddewisiadau, ond nid oes ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r hyn sydd ar gael a'r gwasanaethau ataliol sydd eu hangen	20
3 Er bod gan awdurdodau lleol systemau atgyfeirio effeithiol ar gyfer pobl y gallai fod angen gwasanaethau cymdeithasol arnynt, mae gofalwyr yn parhau heb fynediad cyfartal	28
4 Mae'r dull 'drws blaen' yn lleihau'r galw, ond mae awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd dangos a yw'n helpu pobl ac yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaethau cymdeithasol hefyd	33
Atodiadau	43
Atodiad 1 – Adolygiad o lenyddiaeth a gwybodaeth ar y we	44
Atodiad 2 – Gwariant alldro refeniw gwasanaethau cymdeithasol mewn termau real ar asesu a rheoli gofal fesul awdurdod lleol (£'000) yn 2008-09 a 2017-18	45
Atodiad 3 – Gwariant mewn termau real (cyfwerth â 2017-18) ar wasanaethau cymdeithasol personol fesul awdurdod lleol yn 2008-09 a 2017-18	47

Adroddiad cryno

Mae cynghorau yn atal y galw am ofal cymdeithasol, ond nid yw gwybodaeth, cyngor a chymorth yn effeithiol yn gyson

- 1 Mae amcanestyniadau'n dangos y bydd poblogaeth oedolion Cymru yn cynyddu 7% a'r rhai sy'n 65 oed a throsodd yn cynyddu 32% erbyn 2035, a bod y galw posibl ar ofal cymdeithasol a gwasanaethau yn y gymuned yn cynyddu'n sylweddol¹. Erbyn 2035, bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd nad ydynt yn gallu rheoli o leiaf un dasg ddomestig yn annibynnol yn cynyddu 46%. Yn yr un modd, mae amcanestyniadau'n dangos y bydd y rhai hynny sy'n 65 oed a throsodd nad ydynt yn gallu rheoli o leiaf un gweithgaredd symudedd yn annibynnol yn cynyddu 51% ac y bydd cyfran y boblogaeth y rhagwelir y bydd yn dioddef o salwch hirdymor cyfyngol yn cynyddu 19.4%.
- 2 O ganlyniad i'r galw cynyddol o'r newidiadau demograffig hyn, ynghyd â'r effaith barhaus y caiff cyni ar arian cyhoeddus a disgwyliadau cynyddol defnyddwyr gwasanaethau, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y 'Ddeddf') er mwyn diwygio, symleiddio a moderneiddio gofal cymdeithasol. Mae'r Ddeddf, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016, yn darparu'r fframwaith cyfreithiol er mwyn gwella lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dyletswyddau newydd, a'i nod yw sicrhau bod pobl yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion ac yn cyflawni llesiant drwy roi barn gyfartal iddynt ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ac y maent yn eu cael. O ganlyniad i hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Ddeddf yn sbardun allweddol er mwyn annog awdurdodau lleol i weddnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

1 System ar y we a ddatblygwyd gan Sefydliad Gofal Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yw Daffodil. Mae'r system yn tynnu ynghyd mewn un lle yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn cynllunio pa wasanaethau gofal y gallai fod eu hangen mewn ardal leol yn y dyfodol. Mae gwybodaeth o ymchwil ac amcanestyniadau poblogaeth yn dangos yr anghenion gofal posibl yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.



Rwy'n meddwl efallai fod angen gofal a chymorth ar rywun rwy'n ei adnabod

Rwy'n meddwl efallai fod angen gofal a chymorth arnaf i



Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth



Fe'i hadnabyddir yn eang fel y gwasanaeth 'IAA' ac mae'n cynnwys darparu gwybodaeth o ansawdd da sy'n helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus am eu llesiant a gweithio gyda nhw i drafod y dewisiadau sydd ar gael i ddod o hyd i'r ateb gorau iddyn nhw. Mae darpariaeth yr IAA ei hun yn wasanaeth ataliol.



'Sgwrs ynghylch yr hyn sy'n bwysig' er mwyn asesu anghenion

Os oes angen, gellir cynnal sgwrs wedi'i thargedu i gasglu mwy o wybodaeth am gryfderau unigolyn a'i anghenion, er mwyn cynghori a chynorthwyo i ddod o hyd i'r ateb gorau iddo ef.



Gwasanaethau Lles ataliol



O'r 'drws blaen', mae awdurdodau yn cyfeirio pobl i amrywiaeth o wasanaethau ataliol. Er enghraifft, cymorth ymarferol sy'n cynnig 'y mymryn bach o gymorth hwnnw' i hybu iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd; cymorth seiliedig ar dai sy'n gallu helpu i gynnal annibyniaeth, neu wybodaeth am wasanaethau megis toiledau cyhoeddus, llyfrgelloedd, neuaddau cymunedol, canolfannau dydd a chanolfannau byw annibynnol. Mae'r ddarpariaeth o wybodaeth ei hun yn wasanaeth ataliol hefyd.



Cynllun gofal a chymorth



Os oes angen, caiff cynllun gofal a chymorth sy'n cynnwys gwasanaethau cymdeithasol mwy traddodiadol ei ddatblygu i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae monitro ac ailasesu cryfderau ac anghenion pobl i gefnogi eu llesiant yn broses barhaus.



Eiriolaeth, diogelu, anghenion brys ac asesiad arbenigol

Mae'r 'drws blaen' hefyd yn ystyried eiriolaeth ac yn cynnwys prosesau i nodi anghenion brys; pa un a yw pobl mewn perygl, neu efallai angen asesiad arbenigol.

- 3 Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth gwasanaethau fod wedi'i hysgogi gan bartneriaethau a chydweithrediad a'i bod yn hyrwyddo gwasanaethau ataliol a all atal anghenion rhag cynyddu drwy sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir.² Bwriedir i'r pwyslais ar atal, a darparu gwasanaethau cymorth a chymunedol, leihau'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol dwys uchel eu cost. Mae gwasanaethau ataliol yn amrywio o wasanaethau gofal canolraddol sy'n gymharol ffurfiol a ddarperir gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, i ymyriadau a allai gynnwys cynlluniau cyfeillio, gosod rheilen neu helpu gyda siopa; gwasanaethau na ddarperir o reidrwydd gan weithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol³. Pan ychwanegir yr elfen o gynhwysiant cymdeithasol, gellir ymestyn y gwaith atal i gynnwys gwasanaethau cymunedol ehangach megis trafndiaeth gyhoeddus, canolfannau hamdden a thai. Mae'r gwasanaethau hyn yn galluogi pobl i aros yn ddiogel ac yn iach, gan fyw bywydau â gwerth, ystyr a phwrpas drwy eu cefnogi i aros yn eu cymuned. Yn bwysig iawn yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, gall gwasanaethau ataliol fod â chost is hefyd ac maent yn aml yn darparu'r safon bywyd gorau posibl oherwydd bod pobl yn aros yn eu cartrefi, yn agos at eu ffrindiau a'u teuluoedd ac yn gallu parhau i gyfrannu at gymdeithas.
- 4 Serch hynny, mae hyrwyddo gwaith atal ac ymyriadau cynnar yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid newid y ffordd y maent yn gweithio ac yn darparu gwasanaethau. Mae'n gofyn am ysgwyddo cyfrifoldeb y tu hwnt i'r gwasanaethau cymdeithasol a dealltwriaeth ei bod yn ymwneud â rhannau eraill o'r system, yn gweithio er mwyn atal y galw ar ofal cymdeithasol, gan helpu i gynnal annibyniaeth, a gwella lles hefyd. I wneud hyn, mae angen i awdurdodau fod wedi creu 'drws blaen' cynhwysfawr i ofal cymdeithasol; bod â systemau effeithiol ar waith er mwyn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol a phwrpasol i'r rhai sy'n cysylltu â nhw i gael cymorth – gelwir hyn yn wasanaeth 'IAA' yn aml. Bydd gwasanaeth IAA effeithiol yn cyfeirio pobl i wasanaethau ataliol a chymunedol, ac yn nodi pryd y mae angen asesiad neu gymorth mwy arbenigol ar rywun.

2 [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 – Gwybodaeth Hanfodol](#)

3 Nid oes diffiniad y cytunwyd arno o ran beth yw ystyr wasanaeth ataliol. O ganlyniad i hyn, rydym wedi defnyddio diffiniad eang gan nodi cyfraniadau gan wasanaethau megis addysg, hamdden, tai, trafndiaeth, cyfleusterau cymunedol, cyflogaeth a chymorth, a all chwarae rhan hanfodol mewn lles pobl. Ceir rhai gwasanaethau sy'n canolbwyntio'n benodol ar annibyniaeth ac ar atal salwch, ac mae eraill yn wasanaethau na ddarperir â'r nod penodol o atal, ond eu bod o fudd mawr o ran cynnal safon bywyd.

- 5 Bu pwyslais ein gwaith ar farnu effeithiolrwydd y 'drws blaen' newydd hwn i ofal cymdeithasol, gan edrych yn benodol ar wasanaethau i oedolion. Mae ein hadolygiad wedi ystyried pa mor gynhwysfawr yw'r gwasanaethau IAA, i ba raddau y mae cymorth ataliol a chymunedol ar gael, a'r systemau sicrwydd a roddir ar waith i sicrhau bod y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, neu'r rhai sydd mewn perygl, yn cael eu nodi a'u cynorthwyo. Yn olaf, rydym yn ystyried effaith y drws blaen ar y galw am ofal cymdeithasol (gwariant, asesiadau a gwasanaethau) ond hefyd o ran gwella llesiant. Nodir ein dulliau adolygu yn **Atodiad 1**

Ein canfyddiadau

- 6 Mae **Rhan 1** yr adroddiad yn nodi ein canfyddiadau mewn cysylltiad â gwasanaethau IAA awdurdodau lleol. Mae IAA effeithiol yn allweddol er mwyn gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus – hynny yw rhoi gwybodaeth a chynghor i bobl, mewn modd prydlon, a all eu helpu nhw i helpu eu hunain, atal eu hanghenion rhag gwaethygu, a lleihau'r ddibyniaeth ar eu hawdurdod lleol. Canfuwyd gennym fod awdurdodau'n canolbwyntio'n fwy ar unigolion yn eu hymagwedd, er enghraifft trwy sefydlu timau amlasiantaethol sydd wedi eu cydleoli. Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud o hyd o ran hybu mynediad i'r drws blaen er mwyn sicrhau bod pawb a all elwa ar IAA yn ei gael.
- 7 Mae **Rhan 2** yr adroddiad yn ystyried sut y mae awdurdodau lleol yn sicrhau bod ganddynt ddarpariaeth ddigonol o wasanaethau ataliol yn y gymuned, a yw'r gwasanaethau hyn ar gael yn helaeth ac a yw'r gwasanaethau ar gael yn rhwydd i'r rhai hynny y mae eu hangen arnynt. Er bod awdurdodau yn cynyddu'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael ganddynt, canfuwyd gennym fod amrywiaeth eang o ran yr hyn sydd ar gael ledled Cymru. Yn aml, nid yw awdurdodau'n gwybod ymhle y mae'r bylchau yn y ddarpariaeth, sydd wedi arwain at ddsbarthu a darparu gwasanaethau mewn modd anghyson. Hyd yn oed pan fo gwasanaethau ataliol effeithiol yn bodoli, gall cydgysylltiadau gwael rhwng sefydliadau gyfyngu ar eu heffeithiolrwydd hefyd.
- 8 Yn **Rhan 3**, rydym yn ystyried sut y mae awdurdodau lleol wedi integreiddio gwasanaethau IAA a gwasanaethau atal â'u cyfrifoldebau gofal cymdeithasol prif ffrwd er mwyn sicrhau nad yw'r rhai y mae angen cymorth a chefnogaeth fwy dwys ac arbenigol arnynt yn cael eu hamddifadu. Yn gyffredinol, canfuwyd gennym fod awdurdodau wedi creu systemau da ar gyfer nodi pryd y bydd angen asesiad neu gymorth a chefnogaeth fwy dwys ar unigolion. Er hynny, nid yw gofalcwyr yn cael y driniaeth gyfartal a ragwelwyd gan y Ddeddf o hyd, ac mae'r ddarpariaeth eiriolaeth yn parhau i fod yn her ledled Cymru. Mae angen datblygu swyddogaeth partneriaid y trydydd sector yn fwy hefyd er mwyn helpu i wreiddio'r trefniadau newydd.

- 9 Yn olaf, yn **Rhan 4**, rydym yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn perfformio ddwy flynedd ar ôl cyflwyno'r Ddeddf ac yn dod i'r casgliad nad oes gan unrhyw awdurdod y cydbwysedd o ran gwariant, asesiadau ac IAA ar hyn o bryd. Er bod asesiadau gofal cymdeithasol yn gostwng, mae'r gwariant ar ofal cymdeithasol i oedolion yn parhau i gynyddu ac nid yw'r gallu i gael gafael ar wasanaethau IAA yn cynyddu ar gyfraddau sy'n cyfateb i'r gostyngiad mewn asesiadau. O ran gwella llesiant, canfuwyd gennym fod awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd dangos effaith gwasanaethau atal. Rydym yn dod i'r casgliad, er bod awdurdodau lleol yn gwneud cynnydd cadarn, bod gwasanaethau mewn cyfnod pontio a bod llawer mwy i awdurdodau ei wneud o hyd.
- 10 Ar sail canfyddiadau'r archwiliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod **cyngorau yn atal y galw am ofal cymdeithasol, ond nad yw gwybodaeth, cyngor a chymorth yn effeithiol yn gyson.**

Argymhellion

- 11 Mae ein gwaith wedi nodi cyfres o argymhellion ar gyfer gwella, ac maent wedi eu nodi isod.

Argymhellion

Gwella mynediad i'r drws blaen

A1 Mae **Rhan 1** yr adroddiad yn nodi sut y mae awdurdodau yn hyrwyddo mynediad i'r 'drws blaen' ac yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu pobl i wella eu lles ac atal eu hanghenion rhag dirywio. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r drws blaen, rydym yn argymhell y canlynol:

- awdurdodau lleol:
 - adolygu eu dulliau presennol, ystyried eu cynulleidfa, a sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd da ar gael yn brydlon er mwyn atal anghenion rhag dirywio a phobl rhag cyflwyno eu hunain am gymorth mewn 'argyfwng';
 - gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i helpu i sicrhau bod pobl sy'n cael gafael ar wasanaethau trwy atgyfeiriadau gan bartneriaid, neu ddulliau eraill, yn cael yr wybodaeth orau i'w helpu;
 - sicrhau bod gwasanaethau eirioli yn cael eu comisiynu a'u cynnig yn rhagweithiol i'r rhai y mae eu hangen arnynt ar y pwynt cyswllt cyntaf; ac
 - ysgwyddo cyfrifoldeb yn lleol ac arwain y gwaith o gydlynu a golygu gwybodaeth leol a gyhoeddir ar Dewis Cymru yn lleol.
- Llywodraeth Cymru
 - gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gofalmwr o'u hawliau i gael eu hasesu ar gyfer eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain gyda'r nod o greu galw am wasanaethau ataliol yr awdurdodau lleol; a
 - chynnal gwerthusiad llawn o swyddogaeth Dewis Cymru wrth roi'r Ddeddf ar waith yn ehangach a defnyddio'r data a geir i adeiladu ar ei botensial fel porth ar gyfer rhannu gwybodaeth yn genedlaethol.

Argymhellion

Buddsoddi mewn atal a deall effaith

A2 Mae **Rhan 2** yr adroddiad yn tynnu sylw at wendidau o ran sicrwydd yr awdurdodau ynghylch ansawdd y gwasanaethau trydydd sector, ataliol a chymunedol y maent yn atgyfeirio pobl iddynt, ac i ba raddau y maent ar gael. Rydym yn argymhell y canlynol:

- awdurdodau lleol:
 - mapio'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael yn eu hardal er mwyn cael gwell dealltwriaeth o lefelau presennol y ddarpariaeth a nodi bylchau a dyblygiadau;
 - cynnwys partneriaid y trydydd sector wrth gyd-lunio atebion ataliol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau y gall pobl gael gafael ar y gwasanaethau hyn mewn modd teg;
 - gweithio gyda phartneriaid y trydydd sector er mwyn teilwra a chomisiynu gwasanaethau newydd lle nodir bylchau; a
 - gweithio gyda phartneriaid i wella data er mwyn gwerthuso effaith gwasanaethau ataliol ar unigolion, ac ar y boblogaeth yn fwy cyffredinol.
- Llywodraeth Cymru:
 - gwella'r gwerthusiad o gost mewn cysylltiad ag effaith y Ddeddf mewn cyd-destun cenedlaethol, a chefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod yr effaith a ddymunir o ran atal gwariant cyffredinol ar ofal cymdeithasol yn dod yn wirionedd dangosol.

Rhan 1

Mae'r Ddeddf wedi annog newid y pwyslais i fod ar atal, ond mae'r amrywiaeth o ran i ba raddau y mae'r gwasanaethau IAA ar gael, yn weledol, yn rhwydd cael gafael arnynt ac o ansawdd da, yn arwain at niferoedd anghyson yn defnyddio'r gwasanaethau



- 1.1 Mae egwyddorion allweddol y Ddeddf yn cynnwys hybu annibyniaeth, camau ymyrryd ac atal cynnar, a rhoi mwy o lais a rheolaeth i bobl dros eu gofal a'u lles eu hunain. Agwedd allweddol ar y Ddeddf fu pwysleisio pwysigrwydd gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da. Adwaenir y gwasanaethau hyn yn eang fel gwasanaethau IAA ac erbyn hyn maent yn gyfystyr â 'drws blaen' i wasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol ac maent yn ganolog i'r broses lwyddiannus o weddnewid a ragwelwyd gan y Ddeddf. Er mwyn gwireddu'r egwyddorion hyn, mae angen newid y pwyslais a'r diwylliant yn sylweddol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd da sy'n helpu pobl i helpu eu hunain yn cael ei darparu'n effeithiol.
- 1.2 Dylid cynllunio 'drws blaen' effeithiol i ofal cymdeithasol i oedolion er mwyn lleihau'r galw am wasanaethau cymdeithasol drwy hidlo'r rhai y gellir diwallu eu hanghenion drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth. Mae hyn yn golygu nad yw'r rhai nad oes angen gofal a chymorth ffurfiol arnynt yn eu cael, sydd yn ei dro yn rhyddhau adnoddau – amser ac arbenigedd gweithwyr cymdeithasol – fel y gallant ymdrin â'r rhai a fydd yn elwa ar gymorth mwy dwys ac arbenigol. Mae hyrwyddo gwasanaethau IAA yn helpu awdurdodau lleol i newid i ddull sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn hefyd. Yn ogystal â bod yn well ar gyfer dinasyddion, gall yr egwyddor o leihau dibyniaeth arwain at arbedion effeithlonrwydd sylweddol i awdurdodau lleol. Nodir manylion yr hyn sy'n gysylltiedig â gweithredu gwasanaethau IAA yn y cod ymarfer a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru⁴. Mae [Arddangosyn 1](#) yn crynhoi tair elfen ar wahân yr IAA.

4 [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 – Rhan 2 Y Cod Ymarfer \(Swyddogaethau Cyffredinol\)](#)

Arddangosyn 1: Y gwasanaeth IAA (gwybodaeth, cyngor a chymorth)

Gwybodaeth – mae hyn yn cynnwys cefnogi pobl trwy ddarparu gwybodaeth o ansawdd da sy'n eu helpu i feddu ar wybodaeth ddigonol i wneud penderfyniadau am eu lles. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am sut y mae'r system gofal cymdeithasol yn gweithio, pa wasanaethau sydd ar gael a all helpu eu lles a sut i gael gafael arnynt, taliadau uniongyrchol, neu wybodaeth am asesiadau gofalwyr.

Cyngor – mae hyn yn gam ymlaen o ddarparu gwybodaeth yn unig gan ei fod yn cynnwys gweithio gyda phobl i drafod y dewisiadau sydd ar gael iddynt i ddod o hyd i'r atebion gorau. Er mwyn darparu cyngor, mae angen i staff yr awdurdod lleol ddeall sefyllfaoedd pobl. Gwneir hyn drwy gynnal asesiad cymesur.

Cymorth – os na ellir mynd i'r afael ag anghenion ymholwr trwy ddarparu gwybodaeth neu gyngor, bydd cymorth yn cynnwys unigolyn arall yn cymryd camau gyda'r ymholwr er mwyn cael gafael ar ofal a chymorth, neu er mwyn i ofalwr gael gafael ar gymorth. Gall hyn arwain yr ymholwr at gael neu gael cynnig asesiad statudol llawn i benderfynu a yw'n gymwys i gael gofal a chymorth mwy ffurfiol.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

- 1.3 Mae awdurdodau'n wynebu'r her o symud oddi wrth asesu a phennu anghenion gwasanaethau gofal cymdeithasol pobl fel man cychwyn tuag at 'ryddhau'r awenau' a barnu cryfderau a galluoedd pobl fel y gallant helpu eu hunain. Wrth symud tuag at ganolbwyntio'n fwy ar unigolion, mae'r goblygiadau IAA yn syml – mae darparu gwybodaeth neu gyngor yn effeithiol ar ystod ehangach o faterion ac atebion yn gofyn am dimau sydd â sylfaen wybodaeth eang, gyfunol a chyfoes sy'n cwmpasu casgliad helaeth o wasanaethau gan awdurdodau lleol, partneriaid a'r trydydd sector.
- 1.4 Canfuwyd gennym fod awdurdodau'n creu timau IAA amlddisgyblaethol amrywiol ac ehangach, a bod llawer o'r rhain wedi eu cydleoli. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, mae pobl sy'n gofyn naill ai am wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion neu wasanaethau tai yr awdurdod lleol yn cael eu cyfeirio i'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol sy'n wasanaeth pwynt cyswllt cyntaf integredig. Yn yr un modd, mae gan dîm IAA Cyngor Sir Gaerfyrddin raglen TG gyffredin sy'n cwmpasu llawer o wasanaethau'r awdurdod ac sy'n galluogi dull gweithredu sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn ac yn helpu i leihau dyblygiadau, ac mae Cyngor Sir Ddinbych yn symud tuag at fodel timau adnoddau cymunedol sydd wedi eu cydleoli ag iechyd.

- 1.5 Er gwaethaf yr enghreifftiau cadarnhaol hyn, mae awdurdodau lleol yn cydnabod bod angen gwneud mwy er mwyn datblygu ac ymwreiddio dull effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn anad dim, mae'n bosibl bod y broses o reoli disgwyliadau'r cyhoedd yn ogystal â newid ymddygiad a meddylfryd staff yn parhau i fod yn gaeth i egwyddorion hirsefydlog y ddeddfwriaeth flaenorol a oedd yn annog pobl i fanteisio ar ofal cymdeithasol. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ceisio goresgyn y rhwystrau hyn trwy ddefnyddio 'olwyn adnoddau', sy'n helpu i ddeall amgylchiadau, cryfderau a galluoedd pobl. Mae staff IAA yn defnyddio'r olwyn adnoddau i lywio asesiadau a darpariaeth IAA, gan annog pobl i adnabod eu cryfderau eu hunain - sut y gallant helpu eu hunain - cyn troi at ffrindiau a theulu, archwilio dewisiadau yn y gymuned, ac yn olaf, gofal neu gymorth proffesiynol⁵.
- 1.6 Fodd bynnag, nid yw gwasanaethau IAA ond mor effeithiol â'r pwyntiau mynediad a'r llwybrau sy'n arwain pobl atynt yn y lle cyntaf. Ledled Cymru, mae awdurdodau lleol wedi datblygu amrywiaeth o lwybrau tuag at eu gwasanaethau IAA. Er enghraifft, mae awdurdodau megis Cyngor Sir Ddinbych, trwy ei dîm pwynt mynediad unigol, a gwasanaeth Llesiant Delta Cyngor Sir Gaerfyrddin, yn darparu canolfannau galwadau pwrpasol, aml-sgiliau⁶ sy'n gweithredu fel porth unigol tuag at wasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau hefyd yn cynnig dewisiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb i bobl, ynghyd ag amrywiaeth o lwybrau proffesiynol trwy feddygfeydd teulu, timau rhyddhau o'r ysbyty a chysylltwyr cymunedol, sy'n chwarae rhan gynyddol bwysig yn y gwaith o wneud i'r system newydd weithio.

5 Gwefan Cyngor Sir Ddinbych, [Newidiadau i ofal a chymorth yng Nghymru](#)

6 Er bod rhai awdurdodau, megis Cyngor Sir Benfro, wedi integreiddio eu tîm IAA i'w canolfan alwadau gorfforaethol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnal canolfannau galwadau pwrpasol ar wahân sy'n ymdrin yn benodol ag ymholiadau ynghylch gofal cymdeithasol a llesiant.

Cysylltwyr Cymunedol

Staff hyfforddedig sy'n gallu helpu pobl i fanteisio ar gyfleoedd yn eu cymuned leol yw Cysylltwyr Cymunedol. Gall y cysylltwyr weithio ar y cyd â phobl i gael gafael ar wasanaethau a'u defnyddio. Fe'u defnyddir yn helaeth ac maent yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o fapio i ba raddau y mae gwasanaethau ar gael a hyrwyddo'r gallu i gael gafael ar IAA ar gyfer cynulleidfa ehangach. Mae Cysylltwyr Cymunedol a llyw-wyr yn chwarae rhan bwysig arall, yn enwedig mewn cymunedau gwledig. Mae'r rhain yn cynnwys timau sydd â chylch gwaith penodol er mwyn rhyngweithio â gwasanaethau cymunedol. Gallant wneud gwasanaethau'r trydydd sector yn fwy cadarn trwy eu rhoi mewn cysylltiad â'i gilydd a darparu cyfleusterau, megis adeiladau y gall grwpiau leoli eu hunain ynddynt. Roedd yr enghreifftiau gorau yn cynnwys cysylltwyr cymunedol yn defnyddio pecynnau adnoddau i fapio darpariaeth y trydydd sector, asesu anghenion y gymuned, cydweddu darpariaeth ag anghenion, ac wedyn defnyddio grantiau i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth. Sicrhaodd sawl awdurdod gyllid o'r Gronfa Gofal Integredig ar gyfer ariannu'r swyddogaethau hyn.

Cysylltwyr Cymunedol yn Sir Benfro

Mae pedwar cysylltwr cymunedol (a gyflogir gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol) yn gweithredu o hybiau cymunedol ledled y sir gan helpu i gysylltu pobl â gweithgareddau lleol ac â'i gilydd. Mae Swyddogion Datblygu yn gweithio'n agos gyda'r Cysylltwyr i sefydlu gwasanaethau newydd a darparu hyfforddiant a chymorth i grwpiau cymunedol sydd eisoes yn bodoli. Mewn dwy flynedd, cefnogwyd 60 o wasanaethau cymunedol newydd a chefnogwyd 20 o elusennau a mentrau cymdeithasol newydd i gael eu creu. Trwy ddefnyddio pecyn adnoddau i fapio'r ddarpariaeth o'i chymharu â'r anghenion, sefydlwyd grwpiau ganddynt a oedd yn apelio at ddiddordebau pobl, megis cerdded Nordig a sesiynau gemau bwrdd. Gall bodolaeth y gwasanaethau 'meddalach' hyn helpu i gynnal annibyniaeth pobl, gan atal eu lles rhag dirywio. I'r rhai hynny ag anghenion mwy cymhleth, gall mynychu'r sesiynau hyn fod yn gam cyntaf pwysig tuag at gael gafael ar gymorth mwy arbenigol megis gwasanaethau profedigaeth a grwpiau dementia, gyda chymorth gan staff sydd wedi cael gwybodaeth am sut i gael gafael ar y gwasanaethau hyn.

- 1.7 Canfu ein hadolygiad o wefannau enghreifftiau o arferion cadarnhaol hefyd. Mae gan y rhan fwyaf o wefannau adran benodol ar ofal cymdeithasol yn un o'r prif benawdau ar y dudalen hafan a gwybodaeth fanwl ar gael ar ôl dau neu dri chlic. Mae'r enghreifftiau gorau yn nodi'n glir y gwasanaethau sydd ar gael, sut i chwilio am gymorth ac yn cynnwys dolenni wedi eu hymwreiddio i chwiliadau awtomataidd Dewis Cymru⁷ am wasanaethau sydd ar gael yn lleol. Caiff adrannau 'Cysylltwch â ni' eu hyrwyddo'n weithredol ar bob tudalen we ac maent yn cynnwys gwybodaeth am ble i ddod o hyd i atebion ac yn dangos yn glir rif cyswllt mewn argyfwng ar gyfer llinell gymorth 24 awr, a gwybodaeth am oriau agor canolfannau/swyddfeydd cyswllt.
- 1.8 Er gwaethaf y dulliau effeithiol hyn, canfuwyd gennym nad yw llawer o'r wybodaeth am sut i gael mynediad i'r drws blaen wedi ei chydgysylltu'n dda. Yn rhy aml, nid yw gwybodaeth am wasanaethau IAA – taflenni, gwefannau, Dewis Cymru a sefydliadau trydydd sector lleol – yn gydnaws nac yn gyson, ac nid yw'n rhoi digon o wybodaeth i gyfeirio dewisiadau a phenderfyniadau pobl ychwaith. Dywedodd un eiriolwr gwirfoddol y gwnaethom siarad ag ef fod llawer o wybodaeth rethreg drawiadol ar gael os ydych yn gwybod sut i gael gafael arni a'ch bod yn ddigon iach, ond mae ymhell o fod yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae darpariaeth yr wybodaeth sydd ar gael yn Gymraeg, ieithoedd eraill ac mewn fformatau hawdd eu defnyddio megis Braille yn parhau i amrywio yn fawr.
- 1.9 Yn yr un modd, canfu ein dadansoddiad o wefannau awdurdodau lleol fod ansawdd gwybodaeth ar-lein yn amrywio'n fawr ac yn aml nid yw'n ddigonol i helpu pobl i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Er bod y rhan fwyaf o'r awdurdodau yn cynnig llawer iawn o wybodaeth, nododd ein hadolygiad o wefannau'r 22 o awdurdodau rai gwendidau cyffredin. Er bod y rhan fwyaf o'r gwefannau yn ymddangos yn gwbl ddwyieithog, mae dolenni i ddogfennau, adnoddau a ffurflenni yn Saesneg yn unig yn aml ac mewn rhai achosion nid ydynt yn gweithio. Yn aml, nid yw'n hawdd dod o hyd i wybodaeth gyswllt - rhif ffôn a chyfeiriad. Er bod hyn yn rhannol er mwyn sicrhau bod pobl yn defnyddio cyfleusterau ar-lein, gall fod yn wrthgynhyrchiol gan arwain at bobl yn colli gwybodaeth am wasanaethau ataliol, sy'n peryglu eu hanghenion i'r pwynt lle bo angen gofal mwy ffurfiol arnynt.


7 [Dewis Cymru – gwefan sy'n cynnwys gwybodaeth am les yng Nghymru.](#)

- 1.10 Mae rhai gwefannau'n cynnwys llawer iawn o wybodaeth a chyfarwyddiadau, ac nid yw bob amser yn glir i'r defnyddiwr gwasanaeth beth y mae angen iddo ei wneud. Nid yw'r rhan fwyaf o'r awdurdodau yn cynnwys manylion ynghylch pryd y cafodd y tudalennau eu hadnewyddu ddiwethaf, sy'n ei gwneud yn anodd asesu a yw'r wybodaeth yn gyfredol ai peidio. Yn yr un modd, mae'r iaith a ddefnyddir yn cynnwys iaith dechnegol yn aml ac nid yw bob amser yn cael ei hysgrifennu mewn iaith glir gyda chyfarwyddiadau eglur, hawdd eu dilyn. Ategir ein dadansoddiad o wefannau gan ganfyddiad arolwg ein gofalwyr lle nododd oddeutu traean o'r ymatebwyr nad oedd eu hawdurdod lleol yn darparu gwybodaeth o ansawdd da a oedd yn eu cynorthwyo i gael gwybod pa gymorth sydd ar gael. Yn yr un modd, roedd 69% o sefydliadau'r trydydd sector a arolygwyd yn nodi gwendidau yn ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau IAA awdurdodau lleol, gan deimlo nad oedd y drws blaen i ofal cymdeithasol yn effeithiol yn gyson.
- 1.11 I lawer o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, mae'r gwasanaeth IAA yn parhau i fod yn rhy adweithiol ac yn aml yn anhysbys, a phrin oedd yr enghreifftiau a welwyd gennym o'r modd y mae awdurdodau'n hyrwyddo defnydd o'r gwasanaeth yn effeithiol ac yn annog pobl i fanteisio arno. Er gwaethaf rhai mentrau cadarnhaol, megis 'galwadau pen-blwydd'⁸ Cyngor Sir Caerfyrddin, mae ein hymchwil yn dangos bod gwybodaeth am wasanaethau IAA yn dod yn bennaf o atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol – gweithiwr cymdeithasol neu feddyg teulu er enghraifft. Dim ond 6% o ofalwyr ddywedodd eu bod wedi dod o hyd i wybodaeth am wasanaethau IAA ar eu pennau eu hunain ac nad oedd angen cymorth gweithwyr proffesiynol arnynt. Mae angen i awdurdodau lleol a'u partneriaid wneud llawer mwy i hyrwyddo ac ehangu'r sylw a roddir i wasanaethau IAA.
- 1.12 Gwefan sy'n ceisio helpu pobl sy'n chwilio am gyngor a chymorth ac sy'n cael ei hyrwyddo fel 'y man ar gyfer gwybodaeth lles yng Nghymru' yw Dewis Cymru. Caiff Dewis Cymru ei gynnal gan [Data Cymru](#) ac fe'i cefnogir gan y 22 o awdurdodau lleol. Mae pob awdurdod lleol yn cyfrannu bob blwyddyn tuag at ei gynnal a'i ddatblygu. Mae Dewis Cymru yn cadw amrywiaeth eang o wybodaeth sy'n helpu i gefnogi pobl i nodi a chael gafael ar wasanaethau a all eu helpu i'w cefnogi. Mae Dewis Cymru yn cadw manylion dros 10,000 o wasanaethau lleol a chenedlaethol, a Bro Morgannwg sydd â'r nifer mwyaf o restrïadau gyda bron i 1,200 o wasanaethau – gweler [Arddangosyn 2](#).

8 Er ei fod wedi ei anelu'n bennaf at y rhai sydd eisoes yn ymgysylltu, mae tîm IAA Cyngor Sir Caerfyrddin yn annog manteisio ar wasanaethau ataliol drwy ffonio pobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed ar eu pen-blwydd er mwyn cadw mewn cysylltiad a'u hysbysu a'u hatgoffa am wasanaethau sydd ar gael i hybu eu lles.

Arddangosyn 2: Adnoddau a gyhoeddir ar Dewis Cymru fesul awdurdod lleol 2018-19

Mae Dewis Cymru yn sicrhau bod dros 10,000 o adnoddau ar gael i helpu pobl i wella eu lles a hybu eu hannibyniaeth. Mae gwasanaethau lleol yn amrywio o ychydig dros 200 o adnoddau ar-lein yn Sir Fynwy i bron i 1,200 ym Mro Morgannwg a Chaerdydd. Mae bron i 1,000 o adnoddau cenedlaethol wedi eu rhestru hefyd.



Ffynhonnell: Dewis Cymru, Chwefror 2019.

- 1.13 Ledled Cymru, mae nifer y chwiliadau a wnaed gan ddefnyddio cyfeirlyfr adnoddau Dewis Cymru wedi cynyddu'n gyson, ac ym mis Ionawr 2019 yr oedd bron i 400% yn fwy na'r nifer a wnaed ym mis Ionawr 2018, gyda dros 25 miliwn o ganlyniadau chwilio wedi eu cyflwyno ym mis Mawrth 2019. Yn ddefnyddiol, gall defnyddwyr gwasanaeth bori dros 250 o Dudalennau Gwybodaeth Genedlaethol hefyd a dewis beth sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys materion megis bod yn dda, gweithgareddau cymdeithasol, cymorth yn y cartref, bod yn ddiogel, rheoli eich arian a gofalu am rywun. Mae'r wefan hefyd yn integreiddio'n dda â gwefan [InfoEngine](#), sy'n gyfleuster tebyg ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector yn unig. Mae'r ddwy system yn 'cyfathrebu' ac yn rhannu gwybodaeth rhyngddynt yn ddyddiol. Mae'r rhaglen hefyd yn integreiddio'n dda gydag adnoddau Galw Iechyd Cymru ac ychwanegir nifer cynyddol o wasanaethau sy'n seiliedig ar iechyd.
- 1.14 Er gwaethaf y prynu ffurfiol a'r arian a ddarperir gan bob awdurdod lleol, mae'r nifer sy'n manteisio ar y wefan ac yn ei hyrwyddo yn amrywio, a nodwyd gennym rai meysydd i'w gwella. Er bod prosesau a systemau rheoli yn cael eu rhoi ar waith er mwyn darparu gwybodaeth o ansawdd da, nid yw Dewis Cymru ond cystal ag ansawdd y data a'r wybodaeth y maent yn eu cynnwys, ac ysgwyddir llawer o'r cyfrifoldeb am wiriadau rheoli ansawdd gan olygyddion lleol. Mae'r dull o gynnal a gwirio cofnodion a ddefnyddir gan olygyddion lleol yn amrywio ac nid yw'r cofnodion yn gyfredol ac yn gywir bob amser. Yn wir, oherwydd cofnodion o ansawdd gwael, nid yw nifer o gyrrff trydydd sector y buom yn siarad â nhw yn gwerthfawrogi Dewis Cymru.
- 1.15 Hefyd, er bod ganddynt swyddogaeth ddadansoddol dda, mae staff Data Cymru yn cydnabod na sefydlwyd y system erioed i werthuso'n llawn yr wybodaeth y mae pobl yn chwilio amdani ac, o bosibl, yn ei defnyddio. Oherwydd hyn, mae'n anodd, felly, i awdurdodau amcangyfrif y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau ar Dewis Cymru a'r effaith gadarnhaol y mae defnyddio'r system yn ei chael ar les unigolion. Yn gyffredinol, rydym yn dod i'r casgliad bod Dewis Cymru yn adnodd gwybodaeth gwerthfawr, a bod cyfleoedd i'w ddatblygu ymhellach.
- 1.16 O'n gwaith, gallwn weld bod gwasanaethau IAA yn chwarae rhan bwysig o ran cyfeirio gofalu ac eraill i wasanaethau yn eu cymuned heb fod angen asesiadau llawn, ffurfiol. Er hynny, y man cychwyn yw'r IAA, ac yn adran nesaf yr adroddiad hwn rydym yn nodi pa mor dda y mae gwasanaethau IAA yn cysylltu â gwasanaethau ataliol a chymunedol a sut y mae'r rhain yn helpu i leihau'r galw ar ofal cymdeithasol.

Rhan 2

Mae awdurdodau lleol yn cefnogi pobl i gael gafael ar amrywiaeth ehangach o ddewisiadau, ond nid oes ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r hyn sydd ar gael a'r gwasanaethau ataliol sydd eu hangen



- 2.1 Fel y nodwyd yn adran gyntaf yr adroddiad, mae'r Ddeddf yn ceisio hyrwyddo annibyniaeth, ymyrraeth gynnar a champau atal trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da. Er hynny, dim ond y man cychwyn yw'r IAA, ac ni all ond bod mor effeithiol â'r gwasanaethau ataliol y cyfeirir pobl atynt. Os yw'r gwasanaethau hyn yn effeithiol, gallant helpu pobl i fyw'n annibynnol a chynnig atebion eraill i gymorth a gofal statudol. Ac ni ddylid cynnal asesiad gofal manylach oni bai y gellir diwallu anghenion trwy ddarparu IAA ac ateb ataliol.
- 2.2 Nid oes diffiniad y cytunwyd arno o ran beth yw ystyr gwasanaeth ataliol ac rydym wedi defnyddio'r safbwynt bras sy'n cwmpasu'r gwasanaethau a ddarperir i helpu pobl i osgoi datblygu anghenion am ofal a chymorth gan ddefnyddio'r enghreifftiau canlynol – [Arddangosyn 3](#).

Arddangosyn 3: enghreifftiau o wasanaethau ataliol yn y gymuned

Er mwyn cyfeirio'n effeithiol i wasanaethau ataliol yn y gymuned, mae'n rhaid i'r awdurdodau feddu ar ddealltwriaeth dda o'r hyn sydd ar gael, ble a phryd, ym mhob rhan o'u hardal. Mae angen iddynt gael gwybodaeth glir a diamwys am y gwasanaeth hefyd, yr hyn y mae'n ei ddarparu, faint y mae'n ei gostio, faint o amser y mae'n ei gymryd i gael gafael arno, ei feini prawf cymhwysedd a'r wybodaeth gyswllt ddiweddaraf.



Cymorth ymarferol sy'n rhoi'r 'cymorth bach hwnnw' sy'n hybu iechyd, lles ac ansawdd bywyd. Mae'r rhain yn cynnwys pethau megis garddio, cymorth i lanhau, cyfeillio, trafnidiaeth gymunedol a chyhoeddus, digwyddiadau heneiddio'n egniol megis dosbarthiadau ymarfer corff ysgafn, gwirfoddoli ac addysg.



Cyngor a gwybodaeth a all helpu pobl i gael gafael ar fudd-daliadau, gwasanaethau a chymorth megis eiriolaeth, hawliau lles, bwyta'n iach, cadw'n gynnes, ymdrin â galwyr ffug, diogelwch yn y cartref a gwasanaethau arbenigol megis y rhai a ddarperir gan Age Cymru.



Cymorth sy'n seiliedig ar dai a all helpu i gynnal annibyniaeth megis gofal ychwanegol a thai gwarchod, technoleg gynorthwyol a Telecare, gwasanaethau warden, cymorth yn ôl yr angen, addasiadau a gwasanaethau cynnal a chadw.



Y gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned a'r gallu i gael gafael arnynt a all helpu i wella ansawdd bywyd ac annog lles. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau megis toiledau cyhoeddus, llyfrgelloedd, neuaddau cymunedol, gwasanaethau/canolfannau dydd a chanolfannau byw'n annibynnol.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

2.3 Er mwyn sicrhau bod y dull gweithredu newydd yn gweithio, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau o wasanaethau ataliol, yn uniongyrchol ac ar y cyd â phartneriaid. Er hynny, er bod pob awdurdod lleol y gwnaethom ymweld ag ef yn trosglwyddo gwasanaethau o fod yn rhai sy'n cael eu harwain gan asesiadau i rai sy'n cael eu harwain gan IAA a gwasanaethau ataliol, gwelwyd gennym fod y gwasanaethau ataliol a oedd ar gael yn amrywio yn fawr. Mae hyn wedi arwain at loteri cod post yn y ddarpariaeth ledled Cymru.

- 2.4 Yn rhy aml, gwelwyd gennym fod anghysondebau a bylchau yng ngwybodaeth ac ymwybyddiaeth awdurdodau lleol o'r hyn sydd eisoes yn bodoli a'r hyn y mae angen ei ddatblygu i sicrhau bod y math a'r nifer cywir o wasanaethau ataliol ar gael. Heb nodi a mynd i'r afael â'r bylchau hyn, mae rhai awdurdodau yn dychwelyd at ddarparu pecynnau gofal a gwasanaethau cymdeithasol mwy traddodiadol, gan annog dibyniaeth yn hytrach na hybu annibyniaeth a hunanddibyniaeth. Mae'r cyrff trydydd sector y buom yn siarad â nhw yn adleisio'r pryderon hyn. Dywedodd oddeutu 70% o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg nad oedd y Ddeddf wedi annog cynnydd mewn gwasanaethau ataliol gan nodi dewis annigonol a diffyg gwasanaethau sydd ar gael, mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru. Hefyd, er bod darpariaeth dda o ran rhai gwasanaethau ataliol (budd-daliadau lles a chyingor ar ddyledion, er enghraifft), yn aml, nid yw gwasanaethau eraill (megis gwasanaethau cyfeillio a all helpu i atal ynysigrwydd ac unigrwydd, gan fynd i'r afael â nhw) yn cael eu darparu.
- 2.5 Mae gwybod beth sydd ar gael a sut y mae'n gweithio yn hanfodol er mwyn sicrhau bod staff IAA yn cyfeirio pobl i wasanaethau a all eu helpu a chael effaith gadarnhaol ar eu lles. O ganlyniad, mae angen i staff IAA fod yn sicr bod y gwasanaethau y maent yn atgyfeirio pobl iddynt ar gael, yn briodol, yn hygyrch, yn berthnasol ac, yn bwysicaf oll, yn ddiogel. Mae'r awdurdodau gorau yn nodi ac yn mapio'r ddarpariaeth bresennol i sicrhau bod gwasanaethau ar gael a hynny'n eang i bawb; nid sicrhau yn unig bod dosbarthiad daearyddol da ar draws ardal, ond gwneud yn siŵr hefyd bod gan wasanaethau allu digonol i gynorthwyo pawb a all elwa ar y gwasanaeth.
- 2.6 Er enghraifft, mae mynegai canolog o wasanaethau ataliol cymunedol ar gael i staff IAA Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf a hyfforddiant rheolaidd i sicrhau bod eu cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol, ac mae rhaglen dreigl o hyfforddiant wythnosol yn helpu i loywi ac atgyfnerthu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned. Drwy'r broses hon, mae'r Awdurdod hefyd yn cynyddu nifer y gwasanaethau ataliol yn y trydydd sector yn ei gyfeiriadur. Yn yr un modd, mae gwaith y swyddog cyswllt trydydd sector yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, sydd wedi ei leoli yn y tîm dyletswydd ac asesu, yn helpu i gryfhau a gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael.

- 2.7 Fodd bynnag, mae angen i awdurdodau lleol gydgyssylltu'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a chyfathrebu'n effeithiol er mwyn sicrhau bod pobl yn glir ynghylch yr hyn y maent yn ei gael a gan bwy. Gall hyn helpu i greu sicrwydd, osgoi dryswch a straen diangen, a helpu i atal pobl rhag cael eu llethu gan ymweliadau cartref neu alwadau ffôn. Gall darparu cofnod ysgrifenedig o ymweliadau a gwasanaethau a gynigiwyd helpu i wella dealltwriaeth gan fynd i'r afael â'r mater. Dywedodd y gofalwyr a gyfwelwyd gennym y gallai cydlyniant y gwasanaethau ataliol y maent yn eu cael fod yn well.
- 2.8 Mae awdurdodau lleol yn dechrau mynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau ataliol, ond mae diffyg dealltwriaeth strategol glir gan y rhan fwyaf ohonynt o lefel a math y gwasanaethau ataliol sydd yn y gymuned, i ba raddau y maent ar gael, a beth arall sydd ei angen. Mae nifer cynyddol o awdurdodau lleol wedi nodi bylchau mewn gwasanaethau ataliol yn lleol ac maent yn ystyried dewisiadau ar gyfer gwella'r ddarpariaeth ac ehangu'r cwmpas, gan gynnwys darparu gwasanaethau yn uniongyrchol. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Ddinbych yn sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol amlddisgyblaethol er mwyn gwella'r amrywiaeth o wasanaethau ataliol a gynigir i ddinasyddion a galluogi dull integredig o asesu anghenion pobl ymhellach.
- 2.9 Er gwaethaf rhai agweddau cadarnhaol, mae'r ddealltwriaeth strategol o'r hyn sydd ar gael a'r hyn sydd ei angen yn wael ar y cyfan. Mae dull mwy ffurfiol a strategol o weithredu lle mae awdurdodau lleol yn nodi gwasanaethau neu fodelau darparu newydd y mae angen eu comisiynu er mwyn mynd i'r afael â bylchau yn ffordd dda o fynd i'r afael â'r gwendidau hyn. Gwelsom rai enghreifftiau o'r dull gweithredu hwn ar waith. Er enghraifft, strategaeth gomisiynu ymrwymiad Cyngor Dinas Casnewydd i gefnogi mentrau cymunedol a pharhau i weithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector er mwyn cynyddu cyfleoedd i gael gafael ar wasanaethau ataliol.


2.10 Er hynny, canfuwyd gennym nad yw staff IAA yn meddu ar wybodaeth o ansawdd da am gwmpas a chost gwasanaethau ac i ba raddau y maent ar gael, nac yn gallu gwerthuso effeithiolrwydd gwasanaethau o'r fath nac effaith cyfeirio pobl iddynt, oherwydd bod llawer o wasanaethau ataliol y trydydd sector wedi esblygu dros amser ac nid ydynt yn cael eu comisiynu na'u hariannu'n uniongyrchol gan awdurdodau yn aml. Gall deallusrwydd gwael arwain at gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau neu'r atebion anaddas a gynigir nad ydynt yn cael effaith gadarnhaol ar les unigolyn. Nododd cyrff trydydd sector fod ganddynt yr arbenigedd i fynd i'r afael â llawer o'r bylchau hyn, ond bod sawl rhwystr yn cyfyngu ar eu cyfraniad. Ymhlith y pryderon hyn ceir:

- a gofynion fel mater o drefn i ddarparu rhagor o wasanaethau, ond nid ymgynghorir â nhw byth ynghylch ymarferoldeb y gofynion ac ni roddir unrhyw arian ychwanegol iddynt ddarparu hynny;
- b cydgysylltiad gwael o wasanaethau ataliol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, a all arwain at ormod neu ddiffyg darpariaeth; a
- c gwasanaethau iechyd yn dibynnu'n ormodol ar awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer gofalwyr.

2.11 Ceir safbwyntiau cymysg ynghylch pwy ddylai arwain wrth fynd i'r afael â hyn – awdurdodau lleol ynteu'r cyrff trydydd sector eu hunain. Yn y cyfamser, mae bylchau'n parhau. Ategir hyn gan ein harolwg o ofalwyr sy'n dangos, er gwaethaf y gwaith o hyrwyddo gwasanaethau ataliol, bod y nifer sy'n manteisio arnynt yn parhau i amrywio – **Arddangosyn 4**.

Arddangosyn 4: Canfyddiadau arolwg y gofalwyr ynghylch canlyniad y gwasanaethau IAA a'r gwasanaethau ataliol yr atgyfeirir pobl iddynt ac a ddefnyddir

Er bod 43% o ofalwyr wedi defnyddio gwasanaethau ataliol am y tro cyntaf neu wedi eu defnyddio'n amlach yn sgil atgyfeiriad, ni roddwyd gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r rhan fwyaf o ofalwyr gael gafael ar wasanaethau ataliol.



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg Gofalwyr, Ionawr 2019.

- 2.12 Un o egwyddorion sylfaenol y Ddeddf yw rhoi'r unigolyn a'i anghenion wrth wraidd ei ofal a'i gymorth, gyda llais a rheolaeth dros y canlyniadau a fydd yn ei helpu i gyflawni lles. Yn allweddol i hyn yw'r gallu i gael gafael ar eiriolaeth⁹, gwasanaethau sy'n cefnogi pobl i fynegi eu safbwyntiau a'u dymuniadau a'u helpu i sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddynt. Dim ond chwarter y gofalwyr a arolygwyd gennym a ddywedodd eu bod wedi cael cynnig gwasanaethau eirioli, a dywedodd 16% ohonynt eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu hannog i rannu eu safbwyntiau a'u pryderon. Dywedodd un eiriolwr a gyfwelwyd gennym ei bod yn ymddangos bod yr wybodaeth allweddol angenrheidiol yn cael ei deall mewn cysylltiad â thasgau gofal sy'n ofynnol yn unig. Ychydig iawn sy'n helpu i ddiffinio'r pethau sydd o bwys gwirioneddol i'r unigolyn, ei hanes, ei sgiliau, ei brofiadau bywyd, ei bryderon a'i ddymuniadau ar gyfer y dyfodol. A'r hawl diamod i gael ei werthfawrogi fel unigolyn yn hytrach na rhywun sy'n cael gofal yn unig. Hyd yn oed pan ddarperir gwasanaeth eirioli, nid yw'r gwasanaethau'n effeithiol yn aml. Nid yw'r cynnig o eiriolaeth yn cael ei hyrwyddo'n weithredol neu, yn rhy aml, caiff ei ddarparu'n rhy hwyr i gael effaith ystyrion. Yn yr un modd, mae'r cyrff trydydd sector a arolygwyd ac a gyfwelwyd gennym yn profi darpariaeth eiriolaeth wael neu annigonol yn aml.
- 2.13 I gloi, mae'r newid mewn pwyslais a darpariaeth trwy gynnig gwasanaethau ataliol i helpu i leihau'r galw am ofal cymdeithasol yn digwydd, ond mae angen gwneud mwy. Ar hyn o bryd, mae gormod o anghysondebau yn y gwasanaethau – eu gwasgariad daearyddol, eu heffeithiolrwydd, ac i ba raddau y maent ar gael. Yn ogystal â sicrhau bod y rheini a all elwa ar wasanaethau atal a gwasanaethau a leolir yn y gymuned yn cael eu harwain i'r cyfeiriad hwn, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau hefyd bod y systemau cywir ar waith ganddynt i ddiogelu ac amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed y mae angen asesiad a gwasanaethau gofal cymdeithasol arnynt. Yn adran ganlynol yr adroddiad, rydym yn ystyried sut y mae awdurdodau yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

9 Bydd eiriolwr da yn gwrando ar safbwyntiau a phryderon; yn helpu i archwilio dewisiadau a hawliau; yn darparu gwybodaeth i helpu i wneud penderfyniadau hyddysg; yn cysylltu â phobl berthnasol ac yn mynd gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i gyfarfodydd neu apwyntiadau, gan eu cefnogi.

Rhan 3

Er bod gan awdurdodau lleol systemau atgyfeirio effeithiol ar gyfer pobl y gallai fod angen gwasanaethau cymdeithasol arnynt, mae gofalwyr yn parhau heb fynediad cyfartal



- 3.1 Er bod y Ddeddf wedi ei chynllunio i sicrhau bod ataliadau ac ymyriadau cynnar yn ffactorau allweddol, mae angen i awdurdodau lleol fod â'r systemau cywir ar waith hefyd er mwyn sicrhau bod y rhai y mae angen gofal a chymorth mwy ffurfiol arnynt yn cael y cymorth angenrheidiol. Gwelwyd gennym fod awdurdodau lleol yn gwneud cynnydd da wrth greu'r newid diwylliant sy'n ofynnol i wireddu'r Ddeddf, a bu newid cadarnhaol mewn pwyslais tuag at asesiadau sy'n seiliedig ar gryfderau, sgysiau 'beth sy'n bwysig' a sicrhau bod gan ddinasyddion lais, dewis a rheolaeth. Y rhain yw'r camau allweddol tuag at sicrhau bod yr ymateb a ddarperir yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion pawb.
- 3.2 Er mwyn gwneud hyn yn dda, mae angen prosesau rheoli priodol ar awdurdodau lleol, ac o'n gwaith maes, canfuwyd gennym fod gan awdurdodau systemau da ar y cyfan ar gyfer penderfynu pryd i gynnal asesiad. Mae hyn fel arfer yn dilyn sgwrs 'beth sy'n bwysig', ac ni fydd yn dechrau nes bydd atgyfeiriad wedi ei wneud drwy'r gwasanaeth IAA. Mae gan yr awdurdodau gorau staff sydd wedi cael hyfforddiant pwynt cyswllt cyntaf hyd at safon uchel sy'n hidlo galwadau ffôn, negeseuon e-bost a cheisiadau am wasanaeth fel un 'drws blaen' ar gyfer yr awdurdod lleol. Caiff y gallu i ddefnyddio gwasanaethau ei annog a'i hyrwyddo'n rhagweithiol, a daw yn uniongyrchol oddi wrth bobl a'u gofalwyr, ond oddi wrth bartneriaid hefyd megis staff ysbyty a meddygfeydd teulu a gwasanaethau eraill yr awdurdod gan gynnwys timau cefnogi tenantiaid a swyddogion tai. Mae rhai awdurdodau – megis Cyngor Dinas Casnewydd – wedi datblygu siarteri cwsmeriaid hefyd sy'n nodi'r safonau y gall dinasyddion eu disgwyl gan yr Awdurdod wrth ymgysylltu â gwasanaethau.
- 3.3 Darperir y gwasanaethau gorau hefyd mewn ffyrdd sy'n sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn cael cymorth a chefnogaeth. Yn gadarnhaol, canfuwyd gennym fod sgysiau 'beth sy'n bwysig' yn canolbwyntio ar gytuno ar gryfderau pawb a'r hyn sydd ei angen arnynt i wella eu lles, ac yn llai ar y gwasanaethau a all fod ar gael. Oherwydd effeithiolrwydd y dull newydd, roedd y gweithwyr cymdeithasol y buom yn siarad â nhw yn teimlo bod ganddynt fwy o amser erbyn hyn i ymdrin ag achosion cymhleth sy'n gofyn am eu harbenigedd. Yn gyffredinol, roeddent o'r farn bod y newid pwyslais mewn gofal cymdeithasol oddi wrth asesiadau tuag at y 'drws blaen' newydd sy'n cael ei arwain gan IAA yn arwain at ddatrysiadau mwy effeithiol a chynaliadwy, ar gyfer awdurdodau yn ogystal â'r rhai sy'n chwilio am gymorth.

- 3.4 Canfuwyd gennym hefyd fod gan awdurdodau lleol lwybrau da ar y cyfan ar gyfer nodi pryd y mae angen asesiadau arbenigol, a hefyd ar gyfer ymateb yn gyflym i'r rhai hynny a allai fod â risg diogelu posibl neu risg posibl o ran Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed. Mae rhai staff awdurdod lleol sy'n gweithio mewn timau IAA wedi elwa ar hyfforddiant diogelu a nodi risgiau (megis 'Arwyddion Diogelwch'¹⁰) sy'n helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella'r broses o nodi pobl sydd mewn sefyllfa o gam-drin a/neu esgeulustod. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi lleoli staff gwaith cymdeithasol sy'n arbenigo mewn diogelu yn y tîm IAA er mwyn helpu i asesu a mesur y risg a nodi'r ymateb cywir pan fo pobl yn cysylltu â'r awdurdod. Mae hyfforddiant pwrpasol ar gyfer staff IAA ynghyd â chymorth arbenigol yn ffordd dda o sicrhau bod gan wasanaethau y rhwyd ddiogelwch angenrheidiol i sicrhau nad yw pobl sy'n agored i niwed yn cael eu hesgeuluso ac y rheolir eu risgiau.
- 3.5 Er gwaethaf y newidiadau cadarnhaol hyn, nodwyd cyfleoedd gennym i wella'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn rheoli'r rhyngwyneb rhwng IAA a gwasanaethau gofal cymdeithasol i ofalwyr. Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr (54%) yn cael gafael ar asesiad yn dilyn atgyfeiriad gan weithiwr proffesiynol (megis gweithiwr cymdeithasol, ysbyty, nyrs, meddyg teulu neu weithiwr iechyd) a dywedodd y mwyafrif ohonynt (69%) y gwnaed yn glir iddynt eu bod yn cael eu hasesu fel gofalwyr. Er hynny, ychydig dros hanner y gofalwyr (54%) oedd yn fodlon â chanlyniad eu hasesiad, a dim ond 44% ddywedodd eu bod wedi cael copi ysgrifenedig o ganlyniadau eu hasesiad y cytunwyd arnynt. Mae llawer o'r gofalwyr a gyfwelwyd gennym yn parhau i gael anawsterau wrth geisio dod o hyd i'r hyn y mae ganddynt hawl iddo gan awdurdodau lleol – **Arddangosyn 5**.

¹⁰ Dull sy'n seiliedig ar gryfderau o ran diogelwch yw Arwyddion Diogelwch. Er ei fod yn bennaf ar gyfer atgyfeiriadau amddiffyn plant, mae ei egwyddorion yr un mor berthnasol i oedolion a gofalwyr sy'n agored i niwed.

Arddangosyn 5: sylwadau ynghylch a yw awdurdodau lleol yn gwneud digon i sicrhau bod gofalwyr yn gwybod am eu hawliau

Mae gofalwyr yn tynnu sylw yn gyson at anawsterau wrth geisio cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall eu hawliau a gwneud dewisiadau gwybodus.

Nac ydyn, mae'n anodd iawn cael gafael ar wybodaeth ac mae'r cyngor yn ceisio eich annog chi i beidio.

Nac ydyn, yn wir. Mae'n ei siwtio nhw nad yw gofalwyr yn gwybod am eu hawliau, gan fod rhoi gwybod iddyn nhw yn golygu bod gofalwyr yn gwybod am yr hyn y mae ganddyn nhw hawl iddo a'r hyn nad ydyn nhw'n ei gael oddi wrth eu cynghorau.

Nac ydyn... yn wir... oherwydd popeth yn fy mhrofiad i. Dydyn nhw ddim yn gwneud dim byd o gwbl oni bai eu bod nhw'n cael eu llusgo...

Nac ydyn, dydyn nhw ddim yn mynd allan o'u ffordd i roi gwybodaeth.

Nac ydyn wir, rydym ni wedi gorfod cyfeillio cyfreithwyr i'n helpu ni.

Nac ydyn, dydyn nhw ddim yn hysbysebu unrhyw wybodaeth berthnasol yn ddigon da, rwyf wedi dod o hyd i wybodaeth o ffynonellau eraill yn y gorffennol.

Nac ydyn, mae'n rhaid i chi chwilio amdano eich hun a all fod yn anodd a chymryd llawer o amser pan fyddwch chi'n gofalu am rywun.



Dydy'r gofawyr ddim yn ymddiried yn y bobl sy'n darparu'r gwasanaethau, rhag ofn iddyn nhw fynd â'r bobl y maen nhw'n gofalu amdany'n nhw i gartref. Mae'r gair 'asesu' yn gamarweiniol – maen nhw'n gwneud i ofalwyr feddwl eu bod nhw'n cael eu hasesu ar ba mor dda maen nhw'n gofalu am y person hwnnw, fel pe bai'r cyngor yn rhoi sgôr iddyn nhw. Mae llawer dydyn nhw ddim yn deall bod yr asesiad yn cael ei wneud ar gyfer eu hanghenion.

Mae Mam mewn cartref nawr... daeth popeth yn rhy hwyr...

Mae fy mynd i'n mynd yn gulach ac yn gulach. Dim digon o gefnogaeth a chymorth, dim digon o seibiannau. Mae'n mynd yn fwyfwy cyfyngol.

Wel, dwi newydd orfod colli diwrnod yn y gwaith oherwydd mod i'n methu ag ymdopi... ac mae hi'n mynd i fod yn fwyfwy ingol, onid yw hi? Dw i'n ceisio peidio â meddwl am y peth...

Rwy'n mynd yn hŷn, rwy'n poeni am ddyfodol hirdymor fy merch hebof fi.



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg Gofalwyr 2018-19.

- 3.6 Ar y cyfan, mae gan ddarparwyr y trydydd sector ddealltwriaeth dda o sut y mae asesiadau yn gweithio, ond amlygwyd pryderon ynghylch pa mor dda y mae awdurdodau yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Er enghraifft, nododd un nad yw'n credu bod y broses asesu yn cael ei hesbonio'n iawn. Bydd gofalwyr yn ystyried yn aml eu bod nhw'n cael eu hasesu ar eu gallu i ofalu am rywun yn hytrach nag asesiad o'u hanghenion cymorth. Mae 72% o gyrff trydydd sector o'r farn nad yw prosesau asesu yn hawdd eu defnyddio, ac mae 33% o'r farn bod asesiadau yn fiwrocraataidd yn ddiangen.
- 3.7 Hefyd, prin oedd y cyrff trydydd sector a ymatebodd i'n harolwg a oedd yn teimlo eu bod nhw'n cael eu 'hannog' gan awdurdodau lleol i gefnogi pobl drwy'r broses asesu. Er bod rhai cyrff trydydd sector wedi gweld eu swyddogaeth yn tyfu, nid yw 32% wedi gweld unrhyw newid ac mae 32% ohonynt wedi gweld eu swyddogaeth yn lleihau. Dim ond 4% o gyrff trydydd sector sy'n credu bod pobl yn cael eu hasesu yn gyflym ac yn effeithlon wrth i dros hanner yr ymatebwyr nodi na chaiff asesiadau eu symleiddio a'u bod nhw'n arwain at oedi. Yn benodol, nid yw awdurdodau yn nodi'r hyn y mae gan ofalwyr yr hawl iddo, maent yn methu â chofnodi gwybodaeth ddigonol a phriodol, ceir diffyg amserlenni clir, maent yn methu'n aml â darparu copiâu ysgrifenedig o ganlyniadau y cytunwyd arnynt ac nid ydynt yn addasu'r ymatebion i anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn. Nododd eraill nad oedd yr awdurdodau yr oeddent yn gweithio gyda nhw bob amser yn nodi'r costau a'r taliadau yn glir (pan fo hynny'n berthnasol) ar gyfer gwasanaethau ataliol a chymunedol.
- 3.8 Dywedodd un corff trydydd sector fod yr atgyfeiriadau y mae'n eu cael yn wael iawn a bod gwybodaeth yn beryglus o annigonol ar adegau – mae staff yr awdurdod lleol yn gyndyn i roi'r wybodaeth angenrheidiol weithiau ac nid ydyn nhw'n gymwynasgar. Gwnaeth gyrff trydydd sector eraill sylwadau ynghylch ymatebion annigonol i asesiadau gofalwyr, wrth i arferion ddisgyn lawer yn is na disgwyliadau'r Ddeddf, ac yn aml, nid yw'r gofalwyr y maent yn gweithio gyda nhw yn gwybod a oes asesiad wedi ei gynnal. At ei gilydd, dim ond 13% o'r cyrff trydydd sector a arolygwyd gennym oedd yn teimlo bod y prosesau asesu yn ddigonol.

Rhan 4

Mae'r dull 'drws blaen' yn lleihau'r galw, ond mae awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd dangos a yw'n helpu pobl ac yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaethau cymdeithasol hefyd




- 4.1 Yn y papur gwyn a ragflaenodd y Ddeddf – [Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu](#) – nododd Llywodraeth Cymru yn glir yr heriau sy'n wynebu cyrff cyhoeddus o ran darparu gofal cymdeithasol yn yr 21ain ganrif. Mae'r rhain yn cynnwys newid demograffig wrth i gymdeithas heneiddio, teuluoedd a chymunedau tameidiog sy'n wynebu heriau cynyddol megis camddefnyddio sylweddau, incwm isel a thlodi a rhagor o ddisgwyliadau a hawliau o ran yr hyn y dylid ei ddarparu a bod ar gael. Ynghyd â thoriad o 22% mewn termau real i'r Grant Cynnal Refeniw ers 2009-10¹¹, cyflwynodd y Papur Gwyn achos cryf dros yr angen i 'adnewyddu' gwasanaethau cymdeithasol.
- 4.2 Fel y nodwyd gennym yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, un o brif nodau'r Ddeddf yw cyfeirio'r rheini sy'n gofyn am wasanaeth gofal cymdeithasol i wasanaethau ataliol yn y gymuned er mwyn sicrhau cyn lleied o angen difrifol â phosibl. Os yw hyn yn gweithio, credwn y byddem yn gweld y canlynol o ganlyniad i hyn, yn y tymor byr o leiaf:
- a lleihad mewn asesiadau gofal i oedolion;
 - b gostyngiad mewn gwariant ar asesiadau i oedolion;
 - c gostyngiad mewn gwariant ar wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a ddarperir gan awdurdodau lleol;
 - ch cynnydd yn y defnydd o wasanaethau IAA gan oedolion; a
 - d chynnydd mewn asesiadau gofalwyr a'r gwasanaethau a ddarperir i ofalwyr.
- 4.3 Mae data ar gael am ddwy flynedd ers i'r Ddeddf gael ei gweithredu ac mae ein dadansoddiad yn dangos bod gwasanaethau awdurdodau lleol mewn cyfnod pontio ac nad yw'r un awdurdod wedi cael y cydbwysedd yn gywir o ran gwariant, asesiadau ac IAA ar hyn o bryd.
- 4.4 Dengys [Arddangosyn 6](#), rhwng 2008-09 a 2015-16, fod nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr oedolion yn ystod y flwyddyn wedi gostwng 10%, ond bod y nifer wedi lleihau'n fwy sydyn ers i'r Ddeddf gael ei gweithredu, gyda'r asesiadau'n gostwng 17%. Cynyddodd nifer y gofalwyr sy'n cael asesiad yn raddol yn ystod y cyfnod, gan gynyddu 26.4% rhwng 2008-09 a 2015-16. Er hynny, mae nifer yr asesiadau gofalwyr a gynhaliwyd wedi gostwng -10.9% ers i'r Ddeddf ddod i rym. Ers 2008-09, mae cyfanswm y gwariant gros mewn termau real ar asesiadau wedi gostwng 16.2%. Ar y cyfan, mae 16 o awdurdodau wedi lleihau gwariant ar asesiadau ac mae chwech wedi cynyddu eu gwariant. Yn Sir Fynwy y mae'r cynnydd mwyaf mewn termau real (+45.1%) ac yn Wrecsam y mae'r gostyngiad mwyaf (-94.3%) – gweler [Atodiadau 1 a 2](#) i gael y manylion llawn.

11 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, [Cyllid Teg a Chynaliadwy ar gyfer Gwasanaethau Lleol Hanfodol](#), Awst 2018.

Arddangosyn 6: nifer yr oedolion a'r gofalwyr a aseswyd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol rhwng 2008-09 a 2017-18¹²

Mae nifer yr oedolion a asesir gan awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gostwng ac mae wedi gostwng yn fwy sydyn ers i'r Ddeddf ddod i rym.




Ffynhonnell: StatsCymru.

¹² Er y gwnaed ymdrechion helaeth i gasglu gwybodaeth ddibynadwy a chywir gan awdurdodau lleol, mae data 2016-17 yn parhau i fod yn amherffaith. Ni ddarparodd pob awdurdod lleol ffurflenni wedi eu cwblhau yn llawn i StatsCymru, oherwydd materion yn ymwneud â gweithredu neu baratoi ar gyfer System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru newydd. Er hynny, y data hwn yw'r gorau sydd ar gael o hyd ar gyfer dadansoddi cymharol.

4.5 Mae awdurdodau lleol yn gwario symiau mawr o arian cyhoeddus ar wasanaethau cymdeithasol personol i oedolion. Ar lefel Cymru, mae'r gwariant gros mewn termau real ar wasanaethau cymdeithasol personol i oedolion wedi cynyddu 11% o £1,360 miliwn yn 2008-09 i £1,506 miliwn yn 2017-18 – **Arddangosyn 7**. Rhwng 2008-09 a 2017-18, mae 17 o awdurdodau wedi gweld twf mewn gwariant termau real ac mae pum awdurdod wedi gweld gostyngiad. Yn Sir Benfro y mae'r cynnydd mwyaf (+41%) ac yn Nhorfaen y mae'r gostyngiad mwyaf (-16%). Mae gwariant ar bobl o dan 65 oed wedi cynyddu 13% yn ystod y cyfnod, wrth i 18 o awdurdodau lleol weld cynnydd. Cafwyd cynnydd o 9% mewn gwariant ar wasanaethau ar gyfer pobl 65 oed neu hŷn wrth i 14 o awdurdodau gynyddu eu gwariant (gweler **Atodiad 3** i gael y dadansoddiad manwl).

Arddangosyn 7: Gwariant Refeniw Gros mewn termau real ar Wasanaethau Cymdeithasol Personol (£'000) o 2008-09 i 2017-18

Mae cost gwasanaethau cymdeithasol personol i awdurdodau lleol yn parhau i gynyddu.




Ffynhonnell: StatsCymru. Dadansoddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

- 4.6 Er mwyn deall sut y mae awdurdodau yn rheoli'r gwaith o weithredu eu cyfrifoldebau newydd o dan y Ddeddf ac yn symud y ddarpariaeth tuag at wasanaethau mwy ataliol a chymunedol, rydym wedi dadansoddi data a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru. Er nad yw hyn ond yn cwmpasu dwy flynedd o weithrediadau, mae'n rhoi syniad cynnar inni o sut y mae awdurdodau lleol yn perfformio. Mae ein dadansoddiad, a nodir yn **Arddangosyn 8**, yn dangos y bu gostyngiad mewn asesiadau ers i'r Ddeddf ddod i rym, ond bod gwariant ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn parhau i gynyddu, er bod cyfradd y cynnydd yn arafach nag yr oedd cyn y Ddeddf. O ganlyniad i hyn, ddwy flynedd ar ôl gweithredu'r Ddeddf, ceir loteri cod post o ran darparu IAA, gwariant ac asesiadau ledled Cymru ac nid yw'r un awdurdod wedi cael y cydbwysedd yn iawn ar hyn o bryd. Nid yw hyn yn syndod.
- 4.7 Rydym yn cydnabod y bydd pontio gwasanaethau yn cymryd amser a bod angen i awdurdodau gydbwyso'r ffordd y maent yn symud o un system gyflenwi i'r llall. Hefyd, mae awdurdodau lleol yn ad-drefnu gwasanaethau o fod yn rhai sy'n cael eu harwain gan asesiadau, i fod yn rhai sy'n canolbwyntio'n fwy ar IAA ac o ganlyniad i hyn, maent yn annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau ataliol yn y gymuned ac yn eu hwyluso i gael gafael arnynt. Er hynny, mae gwasanaethau IAA wedi aros yn eu hunfan ac nid ydynt wedi cynyddu ar gyfraddau uwch i gyfateb i'r gostyngiad cymharol mewn asesiadau. Yn olaf, yn hytrach na gweld cynnydd yng ngallu gofalwyr i gael gafael ar wasanaethau, bu gostyngiad (-40.4%) o'i gymharu ag oedolion sy'n ddefnyddwyr gwasanaethau (-16.8%). O ystyried bod y Ddeddf yn sicrhau bod gofalwyr yn gydradd ag oedolion sy'n ddefnyddwyr gwasanaethau, byddem yn disgwyl gweld mwy o gydberthynas o ran perfformiad.

Arddangosyn 8: newidiadau mewn gwariant termau real, y gallu i gael gafael ar IAA, asesiadau a gynigiwyd ac a gynhaliwyd, fesul awdurdod lleol rhwng 2016-17 a 2017-18

Mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol mewn cyfnod pontio ac mae mwy i'w wneud er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng atal a gofal cymdeithasol.



- Cynigwyd asesiadau - gorau po isaf yw'r ffigurau
- ICynyddu IAA - gorau po uchaf yw'r ffigurau
- Cynhaliwyd asesiadau - gorau po isaf yw'r ffigurau
- Gwariant mewn termau real - gorau po isaf yw'r ffigurau


Ffynhonnell: StatsCymru. Dadansoddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

- 4.8 Mae rhai awdurdodau'n gwneud cynnydd da o ran symud y ddarpariaeth o ofal cymdeithasol i atebion ataliol a chymunedol. Er enghraifft, mae data a gasglwyd gan Gyngor Caerdydd yn dangos, cyn i'r Ddeddf ddod i rym, fod oddeutu 75% o'r holl gysylltiadau â'r gwasanaethau cymdeithasol wedi arwain at asesiad a darpariaeth o ryw fath o ofal a chymorth. Ers mis Ebrill 2016, ymdriniodd y Cyngor â 75% o'r holl gysylltiadau yn y gwasanaeth IAA, a dim ond 25% ohonynt aeth ymlaen i gael asesiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Yn yr un modd, cafwyd gostyngiad o 35% mewn asesiadau gofal cymdeithasol yng Nghyngor Sir Ceredigion. Mae Cyngor Sir Benfro yn monitro faint o amser a gymerir i ymdrin ag asesiadau gofal. Cyn cyflwyno Cysylltwyr Cymunedol, roedd ganddynt 210 o bobl yn aros am asesiad o'u hanghenion gofal. Bellach, cwblheir pob asesiad o fewn deuddydd.
- 4.9 Mae ein hadolygiad yn dangos bod y newid hwn yn dibynnu ar sicrhau bod digon o wasanaethau ataliol cymunedol ar gael i'r awdurdodau. Er hynny, gan fod y rhain yn ddewisol yn aml a gan nad ydynt wedi eu diogelu rhag toriadau yn y gyllideb wrth i gyrrff cyhoeddus reoli effaith cyni, ceir loteri cod post yn aml o ran darpariaeth. Mae datblygu gwasanaethau yn y gymuned yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, ac mae pob awdurdod yn dechrau mewn lle gwahanol. Mae pob awdurdod yn wynebu heriau o ran sicrhau bod digon o wasanaethau ataliol ar gael, ond yn ôl ein tystiolaeth a nodir uchod, nid yw'n glir yn aml ble mae'r bylchau gan nad oes gan awdurdodau lleol ddealltwriaeth dda bob amser o'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, nac o beth arall sydd ei angen.
- 4.10 Mae hawl pobl i lesiant yn ganolog i'r Ddeddf. Er bod gan bobl gyfrifoldeb am eu lles eu hunain, mae angen cymorth ar rai i gyflawni hyn, ac mae'r Ddeddf yn newid y ffordd y mae angen i wasanaethau cymdeithasol, yn ogystal â gwasanaethau gofal eraill, grwpiau gwirfoddol a chymunedol, weithio gyda'i gilydd i helpu a chefnogi pobl. Yn ogystal â sicrhau bod cydbwysedd yn dychwelyd i wariant a darpariaeth gwasanaethau ataliol a'r gallu i gael gafael arnynt, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau hefyd bod y gwasanaethau y maent yn eu darparu ac yn cyfeirio pobl iddynt yn cael effaith gadarnhaol arnynt, ac yn gwella eu lles. Nid yw'n rhwydd nac yn syml diffinio llesiant. Mae'n fwy na bod yn iach a gall gynnwys pethau pwysig megis bod yn ddiogel, byw mewn cartref addas yn y lle cywir, bod yn rhan o gymuned gref, cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol sy'n ysgogi pobl ac yn creu mwynhad, bod â ffrindiau a'r gallu i weithio. Felly, mae'r gallu i farnu a dangos sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu at lesiant yn bwysig.

- 4.11 Canfuwyd gennym fod nifer o awdurdodau lleol yn dechrau ehangu eu systemau rheoli perfformiad ac yn defnyddio amrywiaeth o ddata ansoddol i fonitro eu perfformiad a'u heffaith ar lesiant yn benodol. Mae arolygon bodlonrwydd defnyddwyr sy'n canolbwyntio ar ddeall effaith gwasanaethau yn ffordd dda o wneud hyn. Er enghraifft, mae Cyngor Caerdydd yn monitro manteision gwasanaethau cymunedol er mwyn deall sut y maent yn cyfrannu at lesiant, wrth i sylwadau gan ddefnyddwyr ddangos bod 97% o'r farn bod prydau ar glud yn eu helpu i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain a bod 87% o'r farn bod y gwasanaeth yn gwneud iddynt deimlo'n llai unig.
- 4.12 Er gwaethaf hyn, mae awdurdodau lleol yn cydnabod bod mesur canlyniadau eu hymyriadau ataliol yn parhau i fod yn her. Erys llawer o bwyslais y monitro ar berfformiad gwasanaethau gofal cymdeithasol yn hytrach na'r rhwydwaith atal ehangach. Mae hyn yn rhannol gan nad yw'r data angenrheidiol gan yr awdurdodau lleol i ddeall effaith gwasanaethau atal, a ddarperir yn aml gan bartneriaid. Canfuwyd gennym mai'r mesur a ddefnyddir amlaf i farnu effaith ac effeithiolrwydd gwasanaethau IAA yw cofnodi nifer y defnyddwyr nad ydynt yn cysylltu â'r awdurdod i ofyn am ragor o wasanaethau. Fodd bynnag, gan nad yw awdurdodau lleol ar y cyfan yn monitro nac yn gwneud gwaith dilynol ar ansawdd ac effaith y gwasanaethau ataliol a chymunedol y maent yn cyfeirio pobl iddynt, nid ydynt yn gwybod a yw'r rhain yn cyfrannu at wella lles pobl mewn gwirionedd. Mae sefydliadau'r trydydd sector a ymatebodd i'n harolwg yn adleisio'r pryderon hyn, gan nodi bod effaith gwasanaethau ataliol a chymunedol ar les yn amrywio – **Arddangosyn 9**.

Arddangosyn 9: Barn y Trydydd Sector ar effaith ganlyniadol y gwasanaethau ataliol ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn sgil atgyfeiriad gan IAA yr awdurdod lleol ers rhoi'r Ddeddf ar waith ym mis Ebrill 2016

Mae cyrff y trydydd sector o'r farn bod angen i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod gwasanaethau ataliol yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg o'r Trydydd Sector, Ionawr 2019.

4.13 Mae ein hadolygiad wedi edrych yn benodol ar brofiad gofalwyr ac mae'n dangos bod rhai cyfyngiadau yn parhau ar hyn o bryd yn yr amrywiaeth o wasanaethau a gynigir gan awdurdodau lleol i ofalwyr. Er enghraifft, dim ond 31% o'r ymatebwyr oedd o'r farn eu bod wedi cael amrywiaeth eang o ddewisiadau i'w helpu i wella eu llesiant, a dim ond 35% oedd o'r farn bod y gwasanaethau ataliol y maent yn eu cael yn gwella eu llesiant dyddiol yn gadarnhaol. Er bod hanner y gofalwyr o'r farn y byddai eu hanghenion wedi dirywio heb ymyrraeth eu hawdurdod, dim ond 45% oedd o'r farn bod camau yr awdurdod lleol wedi cael effaith gadarnhaol. Roedd ychydig dros hanner y gofalwyr yn fodlon ar y gwasanaethau a gynigwyd iddynt, ac roedd ychydig yn fwy yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarparwyd i'r unigolyn yr oeddent yn gofalu amdano.

4.14 Mae canfyddiadau'r arolwg hwn, ynghyd â'n dadansoddiad o ddata perfformiad, yn atgyfnerthu ein safbwynt bod gwasanaethau yn esblygu. Yn gadarnhaol, mae nifer yr asesiadau'n gostwng ac mae gwasanaethau ar gyfer gofalwyr yn cynyddu. Er hynny, mae'r gwariant ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn parhau i gynyddu ac mae'r gallu i gael gafael ar wasanaethau ataliol yn parhau i amrywio yn fawr. Rydym yn dod i'r casgliad bod awdurdodau lleol yn gwneud cynnydd cadarn ond bod llawer mwy i awdurdodau ei wneud i sicrhau bod y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion yn gweithio mor effeithiol â phosibl ac yn cael yr effaith gadarnhaol ar lesiant a ragwelwyd gan y Ddeddf.

Atodiadau



Atodiad 1

Methodoleg yr astudiaeth

Adolygiad o lenyddiaeth a gwybodaeth ar y we

Adolygwyd amrywiaeth o ddogfennau gennym, gan gynnwys canllawiau a chodau ymarfer Llywodraeth Cymru, cynlluniau gwasanaeth, strategaethau, a gwybodaeth monitro awdurdodau lleol ac adroddiadau blynyddol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Adolygwyd Dewis Cymru gennym ac aseswyd gwefannau y 22 o awdurdodau lleol.

Dadansoddiad ystadegol a data

Dadansoddiwyd perfformiad awdurdodau gan ddefnyddio data a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd ar [StatsCymru](#) a'r [Ganolfan Meincnodi Uned Ddata Llywodraeth Leol](#). Hefyd, defnyddiwyd data cenedlaethol gennym a ddarparwyd gan y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth ([Daffodil](#)) a'r [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#). Yn ogystal â hyn, fe wnaethom ni weithio gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn adolygu ei lyfr achosion cwynion.

Gwaith maes cenedlaethol

Cyfwelwyd â chynrychiolwyr o nifer o sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys Gofalwyr Cymru, Carers Trust, Action on Hearing Loss, Age Cymru ac Age Connect Cymru. Gyda chymorth Cynghrair Henoed Cymru, cynhaliwyd grŵp ffocws gennym a oedd yn cynnwys sefydliadau trydydd sector a grwpiau eirioli. Hefyd, fe wnaethom gyfarfod â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Data Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i holi eu safbwyntiau a thrafod ein canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg. Fe wnaethom ni ategu ein rhagolygon a'n dealltwriaeth drwy gynnal cyfweiliadau ag Aelodau Etholedig a swyddogion yn nhîm cyswllt cyntaf gofal cymdeithasol i oedolion Newcastle City Council.

Gwaith maes lleol

Gwnaed gwaith maes manwl gennym yng Nghyngor Caerdydd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Sir Benfro. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cyfweiliadau â swyddogion ac Aelodau Etholedig a phroses 'dywys' i benderfynu pa mor rhwydd yw cael mynediad o safbwynt y dinesydd.

Arolygon

Gwnaethom gomisiynu ymchwil i gynnal arolwg ffôn o ofalwyr i benderfynu a ydynt yn teimlo bod y Ddeddf yn gwneud gwahaniaeth iddynt. Cawsom 550 o ymatebion gyda chynrychiolaeth o bob ardal awdurdod lleol. Cymerodd 32 o ofalwyr eraill ran mewn arolwg manylach, a oedd yn canolbwyntio ar effaith gofalu; pa mor hawdd yw cyrchu a defnyddio gwasanaethau awdurdodau lleol; a'r effaith gadarnhaol y mae cefnogaeth awdurdodau lleol yn ei chael ar eu lles. Yn olaf, gwnaethom gynnal arolwg ar-lein o sefydliadau darparu trydydd sector a chawsom 22 o ymatebion.

Atodiad 2

Gwariant alldro refeniw gwasanaethau cymdeithasol mewn termau real ar asesu a rheoli gofal fesul awdurdod lleol (£'000) yn 2008-09 a 2017-18

Awdurdod lleol	2008-09 (£'000)	2017-18 (£'000)	% y newid yn ystod y cyfnod
Ynys Môn	4,587	2,357	-48.6%
Gwynedd	6,091	5,724	-6.0%
Conwy	7,045	6,188	-12.2%
Sir Ddinbych	6,028	5,370	-10.9%
Sir y Fflint	7,626	7,085	-7.1%
Wrecsam	6,784	3,90	-94.3%
Powys	5,510	7,122	29.3%
Ceredigion	3,047	4,301	41.1%
Sir Benfro	4,348	3,591	-17.4%
Sir Gaerfyrddin	7,526	6,403	-14.9%
Abertawe	9,652	6,070	-37.1%
Castell-nedd Port Talbot	8,251	6,671	-19.2%
Pen-y-bont ar Ogwr	4,702	4,650	-1.1%
Bro Morgannwg	4,294	5,373	25.1%

Awdurdod lleol	2008-09 (£'000)	2017-18 (£'000)	% y newid yn ystod y cyfnod
Rhondda Cynon Taf	9,425	11,140	18.2%
Merthyr Tudful	2,105	1,293	-38.6%
Caerffili	9,790	8,368	-14.5%
Blaenau Gwent	5,236	5,797	10.7%
Torfaen	7,019	4,244	-39.5%
Sir Fynwy	5,110	7,419	45.2%
Casnewydd	8,486	3,295	-61.2%
Caerdydd	11,534	7,945	-31.1%
CYMRU	144,196	120,793	-16.2%

Ffynhonnell: StatsCymru – <http://open.statswales.gov.wales/dataset/lgfs0015>.
Dadansoddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru

Atodiad 3

Gwariant mewn termau real (cyfwerth â 2017-18) ar wasanaethau cymdeithasol personol fesul awdurdod lleol yn 2008-09 a 2017-18

Awdurdod lleol	Gwariant termau real ar wasanaethau cymdeithasol personol ar gyfer oedolion o dan 65			Gwariant termau real ar wasanaethau cymdeithasol personol ar gyfer pobl hŷn		
	2008-09 (fesul £1,000)	2017-18 (fesul £1,000)	% y newid yn ystod y cyfnod	2008-09 (fesul £1,000)	2017-18 (fesul £1,000)	% y newid yn ystod y cyfnod
Ynys Môn	16,192	16,423	1%	20,447	18,666	-9%
Gwynedd	24,751	27,089	9%	35,167	40,228	14%
Conwy	28,568	32,867	15%	27,118	30,944	14%
Sir Ddinbych	28,334	28,182	-1%	24,576	22,147	-10%
Sir y Fflint	31,315	34,963	12%	29,902	31,655	6%
Wrecsam	32,528	33,966	4%	24,670	30,113	22%
Powys	27,727	39,861	44%	34,015	43,012	26%
Ceredigion	17,499	20,244	16%	22,595	24,439	8%
Sir Benfro	20,625	36,456	77%	29,686	34,321	16%
Sir Gaerfyrddin	35,976	51,555	43%	51,180	61,949	21%
Abertawe	39,334	36,857	-6%	54,142	69,070	28%
Castell-nedd Port Talbot	29,802	37,106	25%	39,644	37,832	-5%
Pen-y-bont ar Ogwr	25,754	32,345	26%	28,570	32,717	15%
Bro Morgannwg	21,184	22,952	8%	20,847	30,765	48%
Rhondda Cynon Taf	46,970	54,816	17%	72,142	70,748	-2%

Awdurdod lleol	Gwariant termau real ar wasanaethau cymdeithasol personol ar gyfer oedolion o dan 65			Gwariant termau real ar wasanaethau cymdeithasol personol ar gyfer pobl hŷn		
	2008-09 (fesul £1,000)	2017-18 (fesul £1,000)	% y newid yn ystod y cyfnod	2008-09 (fesul £1,000)	2017-18 (fesul £1,000)	% y newid yn ystod y cyfnod
Merthyr Tudful	12,776	13,698	7%	15,164	13,939	-8%
Caerffili	34,718	40,712	17%	42,948	42,680	-1%
Blaenau Gwent	17,741	20,050	13%	18,419	16,684	-9%
Torfaen	22,124	14,772	-33%	22,763	23,056	1%
Sir Fynwy	18,413	21,580	17%	23,006	21,223	-8%
Casnewydd	38,008	34,316	-10%	27,540	30,299	10%
Caerdydd	66,711	67,025	0%	59,044	62,602	6%
CYMRU	637,050	717,835	13%	723,583	789,089	9%

Ffynhonnell: StatsCymru. Dadansoddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru